wrexham
COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

Mae Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor yn ymroddedig i ddarparu cartrefi gweddus mewn amgylchedd diogel i'r rhai sydd eu hangen.

Gall aflonyddwch parhaus gan unigolyn neu grŵp o bobl yn eich cymdogaeth achosi gofid mawr.

Mae Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yma i helpu tenantiaid sy'n dioddef oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys:-

- Gerddi anniben (wedi tyfu'n wyllt, sbwriel a llygod)
- Sŵn (cymdogion, cŵn yn cyfarth, cerddoriaeth uchel a sŵn gormodol o gerbydau)
- Ymosodiad neu drais corfforol
- Camdriniaeth neu fygythiadau llafar
- Defnydd anghyfreithlon o gyffuriau (gwerthu neu dyfu cyffuriau o'r cartref)
- Aflonyddwch hiliol a throseddau casineb
- Graffiti
- Taflu sbwriel (hen ddodrefn mewn gerddi, cerbydau wedi eu gadael)
- Trwsio cerbydau (mewn gerddi sy'n achosi poen llygaid i gymdogion)

YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL wrecsam

NI

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r Cyngor yn credu bod diogelwch yn eich cartref a chymdogaeth yn hawl sylfaenol. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad gwrthgymdeithasol na thorri cytundeb tenantiaeth y Cyngor.

BETH ALLAF EI WNEUD?

Os ydych yn rhentu eich cartref oddi wrth y Cyngor:-

Cofiwch fod sawl math o ymddygiad yn dderbyniol.
Mae enghreifftiau o ymddygiad derbyniol fel a ganlyn:-

- Plant yn chwarae mewn mannau priodol ar adegau priodol
- Gwaith DIY yn ystod y dydd
- Sŵn arferol megis peiriannau golchi a sugnwyr llach yn ystod y dydd

Os nad yw'r broblem yn rhy ddifrifol ond mae'n achosi pryder, gallech wneud rhywbeth amdani. Ewch i siarad â'r unigolyn dan sylw a rhoi gwybod bod y broblem yn peri gofid i chi.

YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

Mae'n bosibl nad ydynt yn sylweddoli eu bod yn achosi problem. Dylech:-

- fod yn gyfeillgar - ni fydd bod yn ymosodol yn helpu
- esbonio'r broblem a sut mae'n effeithio arnoch a'ch teulu
- gwrando ar safbwynt eich cymydog a cheisio canolbwyntio ar sut i newid pethau
- os bydd eich cymydog yn afresymol, gadewch cyn i bethau waethygu

Cadwch gofnion o:

- fath y broblem
- dyddiadau
- amlder
- lleoliad
- pwy sy'n cael eu heffeithio
- pwy sy'n achosi'r broblem

Bydd y rhain yn ddefnyddiol os bydd raid i chi gysylltu â'r swyddfa ystad leol. Gallwch ofyn am daflenni dyddiadur yn y swyddfa er mwyn cofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Os yw'r broblem yn parhau neu'n gwaethygu, cysylltwch â'ch swyddfa ystad leol.

YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL Wrecsam

ADRODD AM YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL:-

Pan fyddwch yn sôn am y mater yn eich swyddfa leol, bydd swyddog tai'n ymchwilio i'r mater. Gallai hyn gynnwys cysylltu â'r tramgwyddwyr a gweithio gydag adrannau eraill y Cyngor megis y Gwasanaeth Amgylchedd mewn achosion o daflu sbwriel neu niwsans sŵn, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau allanol megis yr heddlu.

Os yw sefyllfa'n gwaethygu neu ar gyfer materion mwy difrifol, bydd y broblem yn cael ei chyfeirio at y Tîm Gorfodi Tenantiaeth.

COFIWCH FOD POB DIM A DDYWEDWCH WRTHYM YN GYFRINACHOL.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Pan fydd y Tîm Gorfodi Tenantiaeth yn derbyn adroddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol gan swyddog tai, bydd yn cysylltu â chi i drafod y broblem.

Mae sawl ffordd o helpu i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol; mae rhai'n cynnwys achos llys, bydd eraill yn wahanol.

YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

Unwaith i'r tîm ddeall y problemau, gall benderfynu sut i weithredu nesaf.

Gallai hyn gynnwys:-

- contractau ymddygiad derbyniol i atal troseddwyr
- gorchymyn llys
- gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol
- dadfeddiant - lle'n briodol ac fel y cam olaf

RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL

Heddlu Gogledd Cymru (mewn argyfwng) - 999

Heddlu Gogledd Cymru (arferol) - 01978 290211
Heddlu Gogledd Cymru (minicom) - 01978 294680

Gorfodi Tenantiaeth (24 awr) - 01978 292029

Llinell Gymorth Trais yn y Cartref (24 awr) - 0808 2000 247

Broken Rainbow - 0845 260 4460 (ar gael rhwng 9.00 a.m. - 1.00 p.m. a 2.00 - 5.00 p.m. fel gwasanaeth i bobl LBGT sy'n profi trais yn y cartref)

Cyngor Ar Bopeth - 01978 364639

Cefnogi Dioddefwyr Gogledd Cymru - 01978 294605
Crimestoppers - 0800 555111

Gwarchod y Gymdogaeth - 01978 294519

YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL

ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL Wrecsam

SWYDDFA YSTADAU LLEOL:

Swyddfa Ystad Broughton - 01978 720193

Swyddfa Ystad Caia - 01978 317040

Swyddfa Ystad Gwersyllt - 01978 722100

Swyddfa Ystad Plas Madoc - 01978 813000

Swyddfa Ystad Rhos - 01978 832900

Swyddfa Ystad Canol Wrecsam - 01978 292962

YMDDYGIAD GWRTH GYMDEITHASOL
ADRAN TAI A DIOGELU'R CYHOEDD

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL Wrecsam

Ieithoedd neu Fformatiau Gwahanol

A hoffech gael y daflen hon mewn fformat wahanol h.y. Braille, ar dâp sain neu mewn iaith arall?

Os hoffech, cysylltwch â'r Gwasanaeth Tai, Ffordd Rhuthun, Wrecsam, LL13 7TU neu eich swyddfa tai leol:

Rhif ffôn: 01978 315000
Rhif ffacs: 01978 315320
Ebost: housing@wrexham.gov.uk

Mae gennym bolisi am ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd ar gael ar www.wrecsam.gov.uk neu cysylltwch â'ch swyddfa leol am grynodeb o'r polisi llawn.

Os oes gennych unrhyw sylwadau, clod neu gwynion am y ffordd rydym wedi trin eich problemau, cysylltwch â'r Swyddog Sylwadau a Chwynion, Adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd, Ffordd Rhuthun, Wrecsam, LL13 7TU.

Rhif ffôn: 01978 315300
Rhif ffacs: 01978 315320
Ebost: housing@wrexham.gov.uk